# THOMAS, THOMAS (1839 - 1888), gweinidog gyda'r Wesleaid ac ysgrifennwr ar bynciau amrywiol



**Enw:** Thomas Thomas
**Dyddiad geni:** 1839
**Dyddiad marw:** 1888
**Rhiant:** Mary Thomas
**Rhiant:** Owen Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Wesleaid ac ysgrifennwr ar bynciau amrywiol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 1839 yng Nghaernarfon, yn un o wyth plentyn Owen a Mary Thomas. Bu'n brentis gyda Hugh Humphreys, yr argraffydd adnabyddus o Gaernarfon, ac wedi hynny bu'n gweithio mewn swyddfeydd argraffu ym Mhwllheli a de Cymru. Tra'n gweithio yng Nghaerdydd gwnaeth gais am gael ei dderbyn fel ymgeisydd am y weinidogaeth Wesleaidd - ar y cyntaf yn y maes cenhadol tramor - ond gwrthodwyd ef am resymau meddygol. Derbyniwyd ef i wasanaethu yn y wlad hon, a sefydlwyd ef yn 1862 yn Nhre'r-ddôl yng nghylchdaith Aberystwyth. Ymddengys mai pregethwr go gyffredin oedd, ond ei fod yn fugail gweithgar ac yn egnïol iawn gyda'r gwaith o sefydlu capeli. Tra'n gwasanaethu yng nghylchdaith Llanidloes sefydlodd gymaint â phum capel newydd. Ulverston oedd ei gylchdaith olaf, a bu farw yno 1 Mai 1888.

Cynhwysir ef yn y gyfrol hon oherwydd ei weithgarwch mawr yn cyhoeddi llyfrau poblogaidd. Gellir nodi tri o'r rhain yn arbennig, *Llyfr Pawb ar Bob Peth* (d.d.); *Hynodion Hen Bregethwyr Cymru* (1872); a *Grammadeg Areithyddiaeth* (1873). Bu gwerthu mawr ar y tri hyn. Yn y maes hwn dilynai Thomas esiampl ei gyn feistr, Hugh Humphreys. Cyfrannodd i gylchgrawn Humphreys, *Golud yr Oes*, 1862-4, a hefyd i gylchgronau ei enwad, *Yr Eurgrawn* a'r *Winllan*, a bu am dymor yn olygydd yr olaf.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96) (ail arg.), x, 916

## Gweithiau

Thomas Thomas, *Llyfr coginio a chadw ty: yn cynwys pa fodd? a paham? cogyddiaeth* (Wrexham 1880?)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804806

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu